**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y Bil Rheilffyrdd**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Rheilffyrdd ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 05 Tachwedd 2025. Gellir gweld y Bil yn: Y Bil Rheilffyrdd

## Amcanion Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw galluogi creu Great British Railways (GBR), corff newydd dan berchnogaeth gyhoeddus a fydd yn gyfrifol am y seilwaith rheilffyrdd (e.e. traciau, pontydd, twneli a gorsafoedd) a'r rhan fwyaf o wasanaethau trên i deithwyr. Mae hyn yn golygu bod y Bil yn anelu at ddod â "threnau a thraciau" at ei gilydd.

4. Mae'r system bresennol yn dioddef o wasanaethau annibynadwy, lefel isel o foddhad ymhlith cwsmeriaid a gwerth gwael am arian. Caiff hyn ei achosi gan fodel sy'n rhy dameidiog, diffyg atebolrwydd, cymhellion croes ac afreoleidd-dra, megis gwahanol weithredwyr yn gwerthu tocynnau gwahanol ac yn codi prisiau gwahanol am yr un daith.

5. Mae'r system reilffyrdd newydd sy'n cael ei sefydlu gan y Bil wedi'i chynllunio i wella anghenion a disgwyliadau'r rhai sy'n dibynnu arni ac i gefnogi agenda twf Llywodraeth y DU.

## Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Drafnidiaeth.

7. Bydd y Bil yn:

- Caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddynodi cwmni fel GBR
- Nodi swyddogaethau a dyletswyddau GBR (ei bwrpas)
- Darparu cyllid ar gyfer GBR
- Creu rôl statudol i Feiri er mwyn galluogi dylanwad lleol
- Galluogi GBR i osod prisiau siwrneiau a gwerthu tocynnau
- Sefydlu corff gwarchod teithwyr
- Sefydlu 'cyfundrefn mynediad' sy'n caniatáu i GBR wneud penderfyniadau ar ba wasanaethau all gael mynediad i'r traciau.

---

[1] Noder, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf ac fel "y Senedd" ar ôl hynny oni fydd y cyd-destun yn nodi fel arall.

8. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau penodol i deithwyr yng Nghymru ac am seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd ac mae hynny'n parhau i fod yn wir o dan y Bil hwn.

9. Mae swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd wrth ddatblygu'r Bil. Bydd y cyswllt hwn yn parhau ar lefel swyddogion a Gweinidogion yn ôl y gofyn.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Yn fy marn i, mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a ganlyn: cymalau 3, 4, 7, 9, 11, 12, 15-21, 24, 25, 27-37, 39, 40, 42, 43, 45-48, 51, 52, 59-72, 79-81, 85-90, 92, Atodlen 2 (Rhan 1) ac Atodlen 3 (paragraffau 4, 5, 8-10, 12-16, 18, 19, 21-23, 25, 26).

**<u>Rhan 1 – Y Gyfundrefn Newydd ar gyfer y Rheilffyrdd</u>**

**Pennod 1 – Great British Railways**

11. Mae **cymal 3 (Swyddogaethau)** yn rhoi swyddogaethau i GBR sy'n ymwneud â rheoli seilwaith y rheilffyrdd, darparu gwasanaethau rheilffyrdd a materion cysylltiedig. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i roi swyddogaethau pellach i GBR drwy reoliadau. Caiff GBR arfer ei swyddogaethau drwy gyrff gan gynnwys cwmni sy'n eiddo ar y cyd i GBR a Gweinidogion Cymru (gweler ystyr "GBR company" yng nghymal 90(1)).

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru (gweler cymal 31(4)) neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

12. Mae **cymal 4 (Arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Alban)** yn galluogi Gweinidogion Cymru i drefnu i unrhyw un o'u swyddogaethau sy'n ymwneud â rheilffyrdd neu wasanaethau rheilffyrdd gael eu harfer ar eu rhan gan GBR, is-gwmni i GBR neu gwmni sy'n eiddo ar y cyd i Weinidogion Cymru a GBR. Mae'r cymal yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru sy'n llywodraethu unrhyw drefniant asiantaeth y gall Gweinidogion Cymru ymrwymo iddo.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru neu'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

13. Mae **cymal 7 (Cyfarwyddydau gan yr Ysgrifennydd Gwladol)** yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddydau i GBR ynghylch arfer ei swyddogaethau. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer pwerau o dan yr adran hon, ac eithrio pwerau mewn perthynas â swyddogaethau o dan Bennod 1 o Ran 3 (mynediad at seilwaith a gwasanaethau) mewn modd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar wasanaeth Cymreig a ddarperir gan GBR (fel y'i diffinnir yn is-adran (7)).

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru.

14. Mae **cymal 9 (Canllawiau gan yr Ysgrifennydd Gwladol)** yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi canllawiau i GBR ynghylch arfer ei swyddogaethau statudol ac yn gwneud darpariaeth gysylltiedig. (Gweler cymal 3(4) am ystyr "statutory functions".)

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

15. **Cymal 11 ac Atodlen 1 (Trwyddedu)** - Mae'r cymal hwn ac Atodlen 1 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Rheilffyrdd 1993 er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ganiatáu GBR i fod y gweithredwr asedau rheilffyrdd a bennir neu a ddisgrifir yn y drwydded. Caiff y gallu i roi trwydded i gorff arall ei ddargadw. Mae Atodlen 1 hefyd yn gwneud darpariaeth gysylltiedig.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

16. Mae **cymal 12 (Ariannu) a Rhan 1 o Atodlen 2** yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ariannu gweithgareddau GBR.

    - **Y Swyddfa Ffyrdd a Rheilffyrdd (ORR) i osod amserlen sy'n llywodraethu'r broses ariannu.** Yn ei gwneud yn ofynnol i'r ORR hysbysu Gweinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban, GBR a'r Cyngor Teithwyr cyn dechrau pob cyfnod ariannu 5 mlynedd am ddyddiadau allweddol mewn perthynas â cherrig milltir wrth gynllunio gweithgareddau GBR ar gyfer y cyfnod ariannu hwnnw. Mae'n ofynnol i'r ORR ymgynghori â'r un bobl yn ôl amserlen a bennir yn yr hysbysiad.
    - **Datganiad Amcanion yr Ysgrifennydd Gwladol.** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi datganiad o amcanion mewn perthynas â phob cyfnod ariannu sy'n nodi ei amcanion ac yn nodi pa rai o'r amcanion hynny y gall GBR eu cyflawni. Mae'r amcanion yn cynnwys safonau ar gyfer gweithgareddau rheilffyrdd, gwasanaethau i deithwyr, y rhwydwaith rheilffyrdd, y defnydd o'r rhwydwaith, prisiau siwrneiau, hygyrchedd, materion diogelwch. Wrth baratoi'r datganiad, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru a rhaid iddynt hefyd ddarparu'r datganiad i Weinidogion Cymru.
    - **Datganiad o'r cronfeydd sydd ar gael.** Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi datganiad ar gyfer pob cyfnod ariannu am yr uchafswm cymorth ariannol tebygol a allai fod ar gael i GBR i ariannu ei weithgareddau. Mae gofynion ynglŷn ag amseru, cyhoeddi ac ymgynghori â'r ORR.
    - **Cynllun busnes a chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.** Rhaid i GBR ddarparu cynllun busnes i'r ORR a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer pob cyfnod ariannu sy'n cynnwys y gweithgareddau y mae'n bwriadu eu cyflawni, amcangyfrif o'r costau o wneud hynny a sut mae GBR yn bwriadu talu'r costau. Mae gofynion ynglŷn

ag amseru, cyhoeddi ac ymgynghori â’r ORR, yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdod Safonau Teithwyr. Rhaid i GBR roi sylw i ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol o'r uchafswm arian sydd ar gael mewn perthynas â'r cyfnod ariannu.

- **Cadw'r cynllun busnes a gymeradwywyd yn gyfredol.** Dyletswydd ar GBR i gadw'r cynllun busnes yn gyfredol. Yn cynnwys rôl gymeradwyo ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol, rolau ymgynghori ar gyfer yr ORR a’r Cyngor Teithwyr a gofynion cyhoeddi.
- **Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu cymorth ariannol.** Mae'r cymorth ariannol y caniateir ei ddarparu i GBR wedi'i gyfyngu i weithgareddau a gynhelir (a) wrth arfer swyddogaethau GBR o dan gymal 3(1)(a) (rheoli etc seilwaith rheilffyrdd) neu (b) a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau. Gellir darparu'r cymorth ariannol ar y telerau hynny ag y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried yn briodol.
- **Hysbysiad o gymorth i'w ddarparu.** Dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i hysbysu'r ORR a GBR o gymorth ariannol i GBR a'r gofyniad cyhoeddusrwydd cysylltiedig. Gosod gofynion i hysbysu GBR, yr ORR a’r Cyngor Teithwyr a gofynion ar yr Ysgrifennydd Gwladol os ydynt yn bwriadu amrywio cymorth ariannol ac yn gwneud darpariaeth gysylltiedig.

Ystyriaf fod y cymal a'r Atodlen yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y maent yn ymwneud â gwasanaethau rheilffyrdd ac eithrio'r rhai ar gyfer cludo nwyddau, mewn cysylltiad â gorchymyn gweinyddu rheilffyrdd neu mewn cysylltiad â Rheoliadau Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth 2023, yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru neu'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

**Pennod 2 – Arfer Swyddogaethau Rheilffyrdd**

17. **Cymal 15 (Strategaeth rheilffyrdd)** - Dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i baratoi strategaeth hirdymor ar gyfer y rhwydwaith a'r gwasanaethau rheilffyrdd ym Mhrydain (ac eithrio swyddogaethau Gweinidogion yr Alban), ynghyd â darpariaeth gysylltiedig ar gyfer adolygu, diwygio, disodli a chyhoeddi. Wrth baratoi neu adolygu'r strategaeth, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru neu’n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu’r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

18. **Cymal 16 (Dyletswydd GBR a’r ORR i roi sylw i strategaethau).** Rhaid i GBR a’r ORR roi sylw i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru pan fydd yn arfer eu swyddogaethau (ymhlith pethau eraill).

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n effeithio ar swyddogaethau GBR sy'n cael eu nodi fel swyddogaethau sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

19. **Cymal 17 (Targed nwyddau rheilffordd)** - Dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i osod targed i gynyddu'r defnydd o'r rhwydwaith rheilffyrdd ym Mhrydain ar gyfer cludo nwyddau a'i adolygu'n rheolaidd. Yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ar gyfer adolygu, disodli a chyhoeddi.

20. Yn cynnwys dyletswydd ar GBR i roi sylw i'r targed a osodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac unrhyw darged a osodir gan Weinidogion yr Alban pan fydd yn arfer ei swyddogaethau statudol.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

21. Mae **cymal 18 (Dyletswyddau cyffredinol Gweinidogion, GBR a'r ORR)** yn gymwys i (ymhlith pethau eraill) y ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud â rheilffyrdd a gwasanaethau rheilffyrdd.

22. Dyletswydd i arfer y swyddogaethau –

    (a) yn y ffordd orau i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau teithwyr rheilffyrdd, yn enwedig anghenion pobl anabl,
    (b) yn y ffordd orau i hyrwyddo'r defnydd o'r rhwydwaith rheilffyrdd ar gyfer cludo nwyddau,
    (c) hyrwyddo safonau uchel mewn perfformiad gwasanaethau rheilffyrdd,
    (d) i alluogi personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i gynllunio gyda lefel resymol o sicrwydd,
    (e) yn y ffordd orau i fod er budd y cyhoedd, a
    (f) gan ystyried costau y bydd angen eu talu o gronfeydd cyhoeddus a'r angen i ddefnyddio'r cronfeydd hynny yn effeithlon.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru neu'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto. Ymddengys hefyd ei fod yn ymwneud yn rhannol â swyddogaethau cydsyniad cynllunio tir sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

23. Mae **cymal 19 (Dyletswydd diogelwch Gweinidogion a'r ORR)** yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried yr angen i ddiogelu pob person rhag peryglon sy'n deillio o'r gwaith o weithredu rheilffyrdd wrth (ymhlith pethau eraill) arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud â rheilffyrdd a gwasanaethau rheilffyrdd.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru neu'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto. Ymddengys hefyd ei fod yn ymwneud yn rhannol â swyddogaethau cydsyniad cynllunio tir sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

    .

24. Mae **cymal 20 (Dyletswydd cystadleuaeth yr ORR)** yn gymwys i'r ffordd y mae'r ORR yn arfer ei swyddogaethau ac eithrio swyddogaethau penodedig. Rhaid i'r ORR arfer ei swyddogaethau yn y ffordd y mae'n ei ystyried orau i hyrwyddo cystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd er budd defnyddwyr.

    Ystyriaf fod y cymal yn ystyried materion datganoledig i'r graddau y mae'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

25. **Cymal 21 (Dyletswydd yr ORR i roi sylw i ganllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol)**. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi canllawiau i'r ORR ynghylch arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â rheilffyrdd, ac eithrio mewn perthynas â swyddogaethau penodedig. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn rhoi, amrywio neu ddirymu canllawiau o'r fath.

    Ystyriaf fod y cymal yn ystyried materion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru neu'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

26. **Cymal 24 (Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru)**. Dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i baratoi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd wrth arfer eu swyddogaethau priodol mewn perthynas â rheilffyrdd a gwasanaethau rheilffyrdd. Mae'n nodi materion y caiff memorandwm eu cynnwys yn benodol.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru neu'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto. Ymddengys hefyd ei fod yn ymwneud yn rhannol â swyddogaethau cydsyniad cynllunio tir sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

<u>**Rhan 2 – Gwasanaethau Teithwyr a Gorsafoedd**</u>

27. **Cymal 25 (Dynodi gwasanaethau gan yr Ysgrifennydd Gwladol)** - Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ddynodi'r gwasanaethau teithwyr, neu ddisgrifiad o wasanaethau o'r fath, y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu sicrhau i'w darparu. Ni chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi gwasanaethau i Gymru yn unig na gwasanaethau Cymreig i'r graddau y maent eisoes wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru o dan gymal 27.

28. Yn ôl cymal 90(2), mae i ymadrodd y rhoddir ystyr iddo yn Neddf Rheilffyrdd 1993 yr un ystyr yn y Bil hwn. Mae adran 83(1) o Ddeddf 1993 yn diffinio "Wales only services" a "Welsh services" fel yr ystyron a roddir iddynt yn adran 57 o Ddeddf Rheilffyrdd 2005.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

29. **Cymal 27 (Dynodi gwasanaethau gan Weinidogion Cymru)** - Rhaid i Weinidogion Cymru ddynodi'r gwasanaethau i Gymru yn unig, neu ddisgrifiad o wasanaethau o'r fath, y caniateir iddynt gael eu darparu o dan gymal 31. Cânt hefyd ddynodi elfennau Cymreig o wasanaethau Cymreig y maent yn ystyried y dylid eu darparu ynghyd â gwasanaethau dynodedig i Gymru yn unig. Caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu dynodiad.

30. Gweler hefyd gymalau 28 neu 29(3) am wasanaethau sydd wedi'u heithrio rhag cael eu dynodi.

31. Mae i "Welsh component of a Welsh Service" yn adran 83(1) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 yr un ystyron ag y rhai yn adran 57 o Ddeddf Rheilffyrdd 2005.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru neu'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

32. **Cymal 28 (Esemptiad rhag dynodi: pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol)** - Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol rhoi esemptiad rhag dynodi ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd fel y pennir mewn rheoliadau. Ni chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol bennu gwasanaethau i Gymru yn unig a rhaid iddynt ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn eu hesemptio mewn perthynas â gwasanaethau Cymreig.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru.

33. **Cymal 29 (Esemptiad rhag dynodi: pwerau Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban)** - Caiff Gweinidogion Cymru rhoi esemptiad rhag dynodi ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd i Gymru yn unig fel y pennir ganddynt mewn rheoliadau. Felly, bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

34. Mae **cymal 30 (Esemptiad rhag dynodi: atodol)** yn gwneud darpariaeth atodol i gymal 29 (esemptiad rhag dynodi: pwerau i Weinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban).

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaeth yng nghymal 29.

35. Mae **cymal 31 (Darparu gwasanaethau i deithwyr rheilffyrdd)** yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu gwasanaethau i deithwyr rheilffyrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban.

36. Mae is-adran (1) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau darparu gwasanaeth i deithwyr rheilffyrdd a ddynodir o dan adran 25. Mae is-adran (2) yn cyfyngu gallu'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud hynny i ddyfarnu contract i GBR neu gwmni GBR.

37. Mae is-adran (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i naill ai (a) darparu'r gwasanaethau i deithwyr rheilffyrdd a ddynodir o dan gymal 27 eu hunain, neu (b) sicrhau eu darpariaeth drwy ddyfarnu contract gwasanaeth cyhoeddus yn uniongyrchol i gwmni sector cyhoeddus, neu gwmnïau, yn unol â rheoliad 17 (darparu dyfarniad uniongyrchol cyffredinol ar gyfer rheilffyrdd) o Reoliadau Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth 2023.

38. Diffinnir "public sector company" yng nghymal 35 (dehongli) ac mae'n cynnwys cwmni sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru neu sy'n eiddo ar y cyd i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol. Yng nghymal 90(3), mae i’r termau hynny’r ystyron a roddir yn adran 58(4) a (5) o Ddeddf Rheilffyrdd 2005.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru.

39. Mae **cymal 32 (Contractau a ddyfernir o dan adran 31: atodol)** yn gwneud darpariaeth sy'n gysylltiedig â chymal 31 (darparu gwasanaethau i deithwyr rheilffyrdd).

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaeth yng nghymal 31.

40. **Cymal 33 (Prisiau siwrneiau)** - Mae is-adran (3) yn darparu y caiff contract gwasanaeth cyhoeddus o dan gymal 31 gynnwys darpariaeth mewn perthynas â lefel a strwythur cyffredinol prisiau siwrneiau.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaeth yng nghymal 7, 9 a 31.

41. **Cymal 34 (Cynlluniau prisiau siwrneiau gostyngol)** - Mae is-adran (5) yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud cynllun ar gyfer galluogi pobl ifanc, pobl oedrannus neu bobl anabl i deithio am brisiau siwrneiau gostyngol ar wasanaethau a ddarperir ganddynt o dan gymal 31(4)(a).

42. Mae is-adran (6) yn gymwys i bob contract o dan adran 31 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r contractau hynny sicrhau bod y darparwr gwasanaeth yn cymryd camau a bennir yn y contract i alluogi pobl ifanc, pobl oedrannus neu bobl anabl i deithio am brisiau siwrneiau gostyngol.

43. Mae is-adrannau (7) a (8) yn gwneud darpariaeth gysylltiedig.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru neu'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

44. Mae **cymal 35 (Dehongli)** yn cynnwys termau diffiniedig.

    I'r graddau y defnyddir y termau diffiniedig mewn cymalau a nodir uchod fel rhai sy'n gofyn am LCM, ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

45. Mae **cymal 36 (Dyletswyddau Cyffredinol y Cyngor)** yn pennu'r buddiannau craidd sydd wrth wraidd arfer swyddogaethau gan y Cyngor Teithwyr. Mae'r Cyngor Teithwyr wedi'i sefydlu o dan adran 19 o Ddeddf Rheilffyrdd 2005.

    I'r graddau y mae'r cymal hwn yn gysylltiedig â swyddogaethau'r Cyngor Teithwyr a nodir isod fel rhai sy'n gofyn am LCM, ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

46. **Cymal 37 (Cadw materion dan adolygiad a chasglu gwybodaeth)** - Dyletswydd ar y Cyngor Teithwyr i gadw dan adolygiad faterion sy'n effeithio ar fuddiannau'r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau rheilffyrdd, gwneud sylwadau i'r rhai y maent yn credu eu bod yn briodol ac ymgynghori â nhw a chydweithredu â chyrff eraill sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr.

47. Gall y Cyngor Teithwyr hefyd gasglu gwybodaeth mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar fuddiannau'r cyhoedd.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

48. **Cymal 39 (Ymchwiliadau)** - Dyletswydd ar y Cyngor Teithwyr i ymchwilio i unrhyw fater sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i deithwyr rheilffyrdd neu ddarparu gwasanaethau gorsafoedd gan weithredwr trwyddedau os yw'r mater yn codi mewn amgylchiadau rhestredig penodol. Mae'r amgylchiadau'n cynnwys materion a gyfeiriwyd at y Cyngor Teithwyr gan Weinidogion Cymru a materion y mae defnyddiwr rheilffyrdd (posibl) neu grŵp cynrychioliadol yn eu codi gyda'r Cyngor Teithwyr.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru neu'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

49. **Cymal 40 (Pŵer i gael gwybodaeth)** - Gall y Cyngor Teithwyr ofyn am wybodaeth gan berson sy'n darparu neu'n gweithredu gwasanaethau rheilffyrdd neu orsafoedd os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol ar gyfer ymchwiliad o dan gymal 39 (Ymchwiliadau). Mae'r cymal yn gwneud darpariaeth gysylltiedig.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

50. Mae **cymal 42 (Sylwadau ac atgyfeiriadau)** yn rhoi pŵer i'r Cyngor Teithwyr wneud sylwadau i bersonau y mae'n eu hystyried yn briodol at ddibenion datrys materion a godir gydag ef.

51. Mae'r cymal hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Teithwyr gyfeirio'r mater at yr ORR os yw'n credu bod deiliad trwydded yn torri amod y drwydded neu fod deiliad trwydded teithiwr yn torri neu'n debygol o dorri amod trwydded neu ddatganiad o ddarpariaethau rheoleiddio cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan reoliad 10 o OS 2005/3050. Mae'n gwneud darpariaeth gysylltiedig.

    Ystyriaf fod y cymal yn roi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

52. Mae **cymal 43 (Adroddiadau)** yn darparu pwerau adrodd a chyhoeddi i'r Cyngor Teithwyr mewn perthynas ag ymchwiliadau a gynhelir ganddo. Yn benodol, caiff y Cyngor Teithwyr anfon copi at Weinidogion Cymru. Rhaid i'r Cyngor Teithio hefyd gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn rhannu copïau o'r adroddiad neu ei gyhoeddi.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru.

53. Mae **cymal 45 (Trefniadau datrys anghydfodau)** yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Teithwyr i sicrhau trefniadau datrys anghydfodau priodol i ddefnyddwyr (posibl) gwasanaethau rheilffyrdd.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

54. **Cymal 46 (Safonau)** - Caiff y Cyngor Teithwyr osod safonau i bersonau gydymffurfio a hwy sy'n darparu gwasanaethau teithwyr a gwasanaethau gorsafoedd o dan drwydded, a gwasanaethau teithwyr o dan drwydded o dan OS 2005/3050. Mae'r cymal yn rhestru materion penodol a gaiff ddod o dan y safonau ac yn gwneud darpariaeth gysylltiedig.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

55. **Cymal 47 (Cynlluniau gwella)** - Os, yn ystod ymchwiliad neu wrth fonitro cydymffurfiaeth â safonau, mae'r Cyngor Teithwyr yn credu bod person yn torri neu'n debygol o dorri amod trwydded neu ddatganiad o ddarpariaethau rheoleiddio cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan reoliad 10 o OS 2005/3050, caiff y Cyngor Teithwyr ei gwneud yn ofynnol i'r person baratoi cynllun i fynd i'r afael â'r tramgwydd.

56. Mae'r cymal hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Teithwyr gyfeirio'r mater at yr ORR os oes methiant mewn perthynas â'r cynllun ac i hysbysu'r Ysgrifennydd

Gwladol. Mae'r cymal yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ar gyfer camau gweithredu gan yr ORR.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

57. **Cymal 48 (Cyngor am wasanaethau i deithwyr rheilffyrdd a gwasanaethau gorsafoedd)** - Dyletswydd ar y Cyngor Teithwyr i ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar fuddiannau'r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau teithwyr neu orsafoedd (ymhlith eraill) ac i ddarparu cyngor fel y mae'n ystyried yn briodol.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru neu'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

58. **Cymal 51 (Pŵer i wneud eithriadau)** - Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i eithrio gwasanaethau teithwyr penodol o'r dyletswyddau yng nghymalau 37 i 42, 45 a 48 neu i addasu'r dull o'u cymhwyso yn hynny o beth.

I'r graddau y mae'r cymal hwn yn gysylltiedig â swyddogaethau'r Cyngor Teithwyr a nodir isod fel rhai sy'n gofyn am LCM, ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

59. Mae **cymal 52 (Dehongli)** yn cynnwys termau diffiniedig.

I'r graddau y defnyddir y termau diffiniedig mewn cymalau a nodir uchod fel rhai sy'n gofyn am LCM, ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

**<u>Rhan 3 – Darpariaethau Amrywiol</u>**

60. **Cymal 59 (Polisi mynediad a defnydd)** - Dyletswydd ar GBR i gyhoeddi ei bolisi a'i weithdrefnau ar fynediad at seilwaith GBR a'r defnydd ohono (gweler cymal 73). Rhaid cynnwys rhestr o faterion penodedig, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau am fynediad a defnydd, gweithdrefn datrys anghydfodau a gwaith cynnal a chadw a gwella ar seilwaith GBR a'u heffaith.

61. Caiff hefyd gynnwys telerau mynediad a defnydd.

62. Mae gan berson a dramgwyddir gan ddarpariaeth a gynhwysir mewn dogfen a gyhoeddwyd o dan y cymal hwn yr hawl i apelio i'r ORR.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

63. **Cymal 60 (Cynllun capasiti seilwaith)** - Dyletswydd ar GBR i gyhoeddi dogfen sy'n nodi ei safbwyntiau ar y defnydd gorau y gellir ei wneud o seilwaith GBR ar gyfer gweithredu trenau. Wrth lunio'r ddogfen, rhaid i GBR roi sylw i fater

penodedig, sef yn fras, yr angen i ddarparu ar gyfer gwasanaethau GBR, gwasanaethau eraill i deithwyr a chludo llwythi a chynnal a chadw a gwella.

64. Mae gan berson a dramgwyddir gan ddarpariaeth a gynhwysir mewn dogfen a gyhoeddwyd o dan y cymal hwn yr hawl i apelio i'r ORR.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

65. **Cymal 61 (Yr amserlen waith)** - Dyletswydd ar GBR i gyhoeddi amserlen sy'n diffinio'r holl symudiadau trên arfaethedig a gynlluniwyd ar seilwaith GBR yn ystod y cyfnod y mae mewn grym. Mae'r cymal yn cynnwys pŵer i GBR ddiwygio'r amserlen.

66. Dim ond os yw'r gweithredwr trên yn cytuno y caniateir newid neu ddileu symudiad trên a gynlluniwyd nad yw'n wasanaeth teithwyr GBR.

67. Mae darpariaeth ar gyfer apelio i'r ORR i bobl a wnaeth gais am symud trên yn yr amserlen yn erbyn unrhyw ddarpariaeth yn yr amserlen, neu hepgoriad o'r amserlen, neu'r amodau sy'n gymwys.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru.

68. Mae **cymal 62 (Paratoi amserlen waith)** yn cynnwys dyletswyddau ar GBR i wahodd ceisiadau am symudiadau trên trwy hysbysiad cyn cyhoeddi amserlen.

69. Mae'r cymal yn gwneud darpariaeth gysylltiedig am amseru a gweithdrefn. Mae darpariaeth ar gyfer apelio i'r ORR yn erbyn penderfyniad GBR ar gyfer pobl a wnaeth gais am symudiad trên.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru.

70. Mae **cymal 63 (Dyletswydd capasiti)** yn cynnwys darpariaeth sy'n gymwys i GBR wrth wneud penderfyniadau o ran mynediad a pharatoi amserlen.

71. Rhaid i GBR arfer ei swyddogaethau i sicrhau ei fod yn cadw digon o gapasiti dros seilwaith GBR i ganiatáu ar gyfer (a) gweithredu gwasanaethau i deithwyr GBR presennol ac yn y dyfodol a (b) gwneud gwaith cynnal a chadw a gwella angenrheidiol.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

72. Mae **cymal 64 (Cynllun codi tâl)** yn gosod dyletswydd ar GBR i wneud cynllun sy'n nodi'r taliadau (a) am ddefnyddio seilwaith GBR a (b) mewn perthynas â threnau y cynlluniwyd iddynt ddefnyddio seilwaith GBR ond nad ydynt yn gweithredu'n llawn.

73. Bydd y taliadau ar sail adennill costau ond mae darpariaeth ar gyfer swm uwch mewn amgylchiadau penodol ar gyfradd enillion sy'n ymddangos i GBR y byddai gweithredwr effeithlon yn gallu ei thalu. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer swm is mewn amgylchiadau penodedig. Ni chaiff y cynllun ddarparu ar gyfer taliadau i'w gwneud am wasanaethau teithwyr GBR (fel y'u diffinnir yng nghymal 73(1)).

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

74. **Cymal 65 (Cynllun perfformiad)**. Dyletswydd ar GBR i gyhoeddi cynllun i annog GBR a defnyddwyr seilwaith GBR i gymryd camau priodol i leihau tarfu ar drenau sy'n defnyddio seilwaith GBR (fel y'i diffinnir yng nghymal 73(1)).

75. Enghreifftiau o ddarpariaeth y caniateir ei chynnwys yw darpariaeth i'w wneud yn ofynnol i bobl dalu cosbau am darfu ar wasanaethau eraill o'r fath, i dderbyn digolledIad am darfu, i dderbyn bonysau am wasanaethau neu seilwaith o'r fath sy'n perfformio'n well na'r hyn a gynlluniwyd.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

76. **Cymal 66 (Ymgynghori)** Yn gosod dyletswydd ar GBR i ymgynghori â Gweinidogion Cymru (ymhlith eraill) cyn cyhoeddi, gwneud, addasu neu ddisodli dogfen o dan gymal 59 (polisi mynediad a rheoli).

77. Yn gosod dyletswydd ar GBR i ymgynghori â phersonau y mae'n eu hystyried yn briodol cyn cyhoeddi etc dogfen o dan gymal 60 (cynllun capasiti seilwaith), adran 61 (amserlen waith), 64 (cynllun codi tâl) a 65 (cynllun perfformiad).

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru.

78. **Cymal 67 (Apelau yn erbyn penderfyniadau mynediad, codi tâl a pherfformiad).** Gall person a dramgwyddir gan benderfyniad ynghylch mynediad at seilwaith GBR neu ddefnydd ohono neu o dan gynllun a wneir o dan gymalau 64 neu 65 apelio i'r ORR.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

79. **Cymal 68 (Gweithdrefn apelio)** Yn nodi'r weithdrefn ar gyfer apelio i'r ORR trwy gydweddu â'r weithdrefn ar gyfer adolygiad barnwrol.

80. O dan is-adran (6) mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i wneud rheoliadau mewn cysylltiad ag apelau.

81. Caiff yr ORR gyhoeddi dogfen sy'n cynnwys yr arfer a'r weithdrefn mewn perthynas ag apelau. O dan is-adran (9) rhaid iddi ymgynghori â Gweinidogion Cymru (ymhlith eraill) cyn gwneud hynny.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru.

82. Mae **cymal 69 (Cytundebau mynediad)** yn diwygio Deddf Rheilffyrdd 1993 i dynnu rhwydwaith, gorsafoedd a depos cynnal a chadw goleuadau GBR o'r darpariaethau:

- sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion cyfleusterau ymrwymo i gontractau ar gyfer defnyddio eu cyfleusterau rheilffordd, cael cymeradwyaeth ORR ar gyfer cytundebau o'r fath neu ddiwygiadau iddynt,
- sy'n galluogi contractau ar gyfer defnyddio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, gosodiadau sydd wedi'u cynnwys mewn rhwydwaith, ac
- sy'n darparu i'r ORR roi cyfarwyddydau i'w wneud yn ofynnol i berson sydd â chytundeb mynediad wneud defnydd mwy helaeth ohono.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n cyfateb i gymalau yn y memorandwm hwn sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen LCM.

83. **Cymal 70 (Hawliau mynediad)** - Yn fras, mae Rheoliadau Rheilffyrdd (Mynediad, Rheoli a Thrwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) 2016 (OS 2016/645) yn nodi rheolau sy'n llywodraethu sut i ddyrannu hawliau mynediad os oes gofynion sy'n gwrthdaro. Mae'r cymal hwn yn eithrio GBR o'r Rheoliadau.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n cyfateb i'r cymalau yn y memorandwm hwn sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen LCM.

84. **Cymal 71 (Gweithredu cytundebau a hawliau presennol)**. Pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch gweithredu cytundebau mynediad yr ymrwymwyd iddynt cyn i'r adran hon ddod i rym a hawliau mynediad a roddwyd o dan OS 2016/645.

Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â chytundebau mynediad ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

85. **Cymal 72 (Rheoliadau ynghylch seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau nad ydynt yn GBR)** - Pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch seilwaith nad yw'n GBR. Yn fras, seilwaith GBR ("GBR infrastructure") yw unrhyw rwydwaith, gorsaf neu drac a weithredir gan GBR neu ar ei ran (cymal 73(1) a rheoliad 3 OS 2016/645). Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i ddiwygio'r diffiniad hwn gan gymal 73(2).

86. Mae'r pŵer yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â –

    (a) rheoli a gweithredu seilwaith nad yw'n GBR,
    (b) hawliau i weithredu trenau rhwng lleoedd sy'n defnyddio seilwaith nad yw'n GBR,
    (c) cydweithrediad rhwng GBR a phobl sy'n gweithredu seilwaith nad yw'n GBR,
    (d) darparu a chyflenwi cyfleusterau a gwasanaethau,
    (e) cystadleuaeth yn y farchnad.

87. Caiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer –

    (a) gorfodi troseddol neu sifil,
    (b) apelau,
    (c) swyddogaethau (gan gynnwys disgresiynau ar bersonau penodedig),
    (d) pŵer i wneud darpariaeth am faterion sy'n deillio o'r rheoliadau neu sy'n gysylltiedig â hwy mewn dogfen a gyhoeddwyd gan berson penodedig.

88. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol sy'n diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth sylfaenol.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

89. Mae **cymal 79 (Cyhoeddi gwybodaeth gan Weinidogion Cymru)** yn rhoi adran 73B newydd yn Neddf Rheilffyrdd 1993 sy'n gwneud darpariaeth debyg i gymal 77 ar gyfer Gweinidogion Cymru.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru.

90. Mae **cymal 80 (Dyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru a'r Alban)** yn cynnwys dyletswydd ar GBR i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud penderfyniad yn is-adran (4) os yw'n ymddangos i GBR y bydd y penderfyniad yn effeithio'n sylweddol ar fuddiannau economi Cymru neu bobl sy'n byw yng Nghymru, yn gweithio yng Nghymru neu'n ymweld â Chymru. Y penderfyniadau yn is-adran (4) yw'r rhai sy'n ymwneud ag (a) gwasanaethau i deithwyr a ddynodir

o dan gymal 25 a ddarperir yng Nghymru; (b) ychwanegiadau at ran o'r rhwydwaith a weithredir gan GBR yng Nghymru.

91. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys pan nad yw ymgynghori yn rhesymol ymarferol, ac yn yr achos hwnnw rhaid i GBR hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru.

92. **Cymal 81 (Dyletswydd i ymgynghori ag awdurdodau cyfun maerol)** - Dyletswydd ar Weinidogion Cymru (ymhlith eraill) i ymgynghori ag awdurdod (sirol) cyfun maerol cyn gwneud penderfyniad mewn perthynas â gwasanaeth i deithwyr o dan gymal 27 (dynodi gwasanaethau gan Weinidogion Cymru) os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn ardal yr awdurdod ac os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru y bydd y penderfyniad yn effeithio'n sylweddol ar fuddiannau economi'r ardal neu bobl sy'n byw yn yr ardal, yn gweithio yn yr ardal neu'n ymweld â hi. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys pan nad yw ymgynghori yn rhesymol ymarferol, ac yn yr achos hwnnw rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod o'r penderfyniad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru.

93. **Cymal 85 (Trwyddedu etc gyrwyr trên)** - Pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch trwyddedu/ardystio gyrwyr trên a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau rheilffordd. Yn cynnwys rhwymedigaeth i ymgynghori â phersonau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried eu bod yn briodol cyn gwneud y rheoliadau.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

94. Mae **cymal 86 (Confensiwn Cape Town a Phrotocol Lwcsembwrg)** yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi effaith trwy reoliadau i Gonfensiwn Cape Town a Phrotocol Lwcsembwrg ac yn gwneud darpariaeth gysylltiedig.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

95. Mae **cymal 87 (Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)** yn cyflwyno Atodlen 3.

    Ystyriaf fod y cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae Atodlen 3 yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru neu'r rhwydwaith y darperir y gwasanaethau hynny drosto.

96. **Cymal 88 (Pŵer Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth ganlyniadol)** - Caiff rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ganlyniadol ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

I'r graddau y mae'r cymal hwn i wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol ar gymalau a nodir yn y memorandwm hwn fel rhai sydd angen LCM, mae'n rhoi sylw i faterion datganoledig yn y modd a ddisgrifir mewn perthynas â'r cymalau hynny.

97. Mae **cymal 89 (Rheoliadau)** yn gwneud darpariaeth ynghylch rhychwant pwerau i wneud rheoliadau yr Ysgrifennydd Gwladol a gwaith craffu ar y Rheoliadau hynny.

I'r graddau y mae'r cymal hwn i wneud darpariaeth o dan gymalau a nodir yn y memorandwm hwn fel rhai sydd angen LCM, mae'n rhoi sylw i faterion datganoledig yn y modd a ddisgrifir mewn perthynas â'r cymalau hynny.

98. **Cymal 90 (Dehongli cyffredinol)** - I'r graddau y mae'r cymal hwn yn cynnwys darpariaeth sy'n berthnasol i gymalau a nodir yn y memorandwm hwn fel rhai sydd angen LCM, mae'n rhoi sylw i faterion datganoledig yn y modd a ddisgrifir mewn perthynas â'r cymalau hynny.

99. **Cymal 92 (Cychwyn)** - I'r graddau y mae'r cymal hwn yn ymwneud â darpariaeth o dan gymalau a nodir yn y memorandwm hwn fel rhai sydd angen LCM, mae'n rhoi sylw i faterion datganoledig yn y modd a ddisgrifir mewn perthynas â'r cymalau hynny.

100. **Atodlen 3** – mae paragraffau 3 i 26 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Rheilffyrdd 1993. Mae dadansoddiad o'r paragraffau sydd angen cydsyniad LCM fel a ganlyn:

- Mae **paragraff 4** yn hepgor dyletswyddau cyffredinol yr Ysgrifennydd Gwladol a’r ORR yn adran 4. Ystyriaf fod angen LCM gan ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ganlyniadol ar swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a’r ORR yn y Bil hwn a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.
- Mae **paragraff 5** yn gwneud diwygiadau i amodau trwyddedu. Ystyriaf fod angen LCM gan ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ganlyniadol ar amodau trwyddedu yn y Bil hwn a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.
- Mae **paragraff 8** yn hepgor darpariaeth ar gyfer adolygu ffioedd mynediad gan yr ORR. Ystyriaf fod angen LCM gan ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ganlyniadol ar ddarpariaeth am daliadau mynediad yn y Bil hwn a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.
- Mae **paragraff 9** yn hepgor darpariaeth ynghylch darparu gwasanaethau i deithwyr. Ystyriaf fod angen LCM gan ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ganlyniadol ar ddarpariaeth am ddarparu gwasanaethau i deithwyr yn y Bil hwn a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.

- Mae **paragraff 10** yn hepgor darpariaeth ynghylch eithrio atebolrwydd am dorri dyletswydd statudol. Ystyriaf fod angen LCM gan ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ganlyniadol ar ddarpariaeth am atebolrwydd am dorri dyletswydd statudol yn y Bil hwn a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.
- Mae **paragraff 12** yn hepgor darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau at ddibenion annog buddsoddiad mewn rheilffyrdd. Ystyriaf fod angen LCM gan ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ganlyniadol ar ddarpariaeth ynghylch y diben o arfer swyddogaethau yn y Bil hwn a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.
- Mae **paragraff 13** yn diwygio darpariaeth ynghylch gorchmynion ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth. Ystyriaf fod angen LCM oherwydd ei fod yn dileu swyddogaethau Gweinidogion Cymru (ymhlith eraill) yn is-adran (5) a (5C) sy'n ymwneud â gorchmynion cydymffurfio.
- Mae **paragraff 14** yn diwygio darpariaeth ynghylch ystyr ac effaith gorchymyn gweinyddu rheilffyrdd. Ystyriaf fod angen LCM oherwydd ei fod yn dileu swyddogaethau Gweinidogion Cymru (ymhlith eraill) yn is-adran (6)(za) a (d) fel awdurdod priodol i gwmnïau rheilffyrdd gwarchodedig.
- Mae **paragraffau 15 a 16** yn diwygio darpariaeth ynghylch cyfyngu ar wneud gorchmynion dirwyn i ben mewn cysylltiad â dirwyn cwmni rheilffordd gwarchodedig i ben yn wirfoddol, neu ansolfedd cwmni rheilffordd gwarchodedig. Ystyriaf fod angen LCM oherwydd ei fod yn dileu swyddogaethau Gweinidogion Cymru (ymhlith eraill) yn adran 61(1) a (2) ac adran 62 o Ddeddf 1993 fel awdurdod priodol mewn perthynas â chwmnïau rheilffyrdd gwarchodedig.
- Mae **paragraff 18** yn hepgor darpariaeth ynghylch cymorth ariannol gan Weinidogion Cymru (a Gweinidogion yr Alban) pan fo gorchmynion gweinyddu rheilffyrdd mewn grym ar gyfer cwmni rheilffordd gwarchodedig Cymreig. Ystyriaf fod angen LCM oherwydd ei fod yn dileu swyddogaethau cymorth ariannol Gweinidogion Cymru (ymhlith eraill) yn adran 64A o Ddeddf 1993.
- Mae **paragraff 19** yn hepgor darpariaeth am fasnachfreintiau. Ystyriaf fod angen LCM gan ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ganlyniadol ar ddarpariaeth sy'n disodli masnachfreinio yn y Bil hwn a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.
- Mae **paragraff 21** yn hepgor darpariaeth ynghylch dyletswyddau cyffredinol Cyngor Teithwyr a dirprwyo'r dyletswyddau hynny. Ystyriaf fod angen LCM gan ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ganlyniadol ar ddarpariaeth ynghylch dyletswyddau cyffredinol y Cyngor Teithwyr yn y Bil hwn a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.
- Mae **paragraff 22** yn hepgor termau diffiniedig. Ystyriaf fod angen LCM i'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn ganlyniadol ar ddiwygio neu hepgor termau diffiniedig a ddefnyddir mewn cymalau ynghylch materion datganoledig a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.
- Mae **paragraff 23** yn hepgor darpariaeth ynghylch teithio consesiynol i staff rheilffyrdd mewn cytundebau masnachfraint. Ystyriaf fod angen LCM gan ei

fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ganlyniadol ar ddarpariaeth sy'n disodli masnachfreinio yn y Bil hwn a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.
- Mae **paragraff 25** yn hepgor darpariaeth ynghylch adolygu ffioedd mynediad gan yr ORR. Ystyriaf fod angen LCM gan ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig i'r graddau y mae'n ganlyniadol ar ddarpariaeth sy'n ymwneud â thaliadau mynediad yn y Bil hwn a ddadansoddwyd fel un sydd angen LCM.
- Mae **paragraff 26** yn gwneud diwygiadau mewn perthynas â throsglwyddo gweithgareddau perthnasol mewn cysylltiad â gorchmynion gweinyddu rheilffyrdd. Ystyriaf fod angen LCM oherwydd ei fod yn dileu swyddogaethau Gweinidogion Cymru (ymhlith eraill) fel awdurdod cenedlaethol priodol mewn perthynas â chynlluniau trosglwyddo.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

101. Mae'r Gwir Anrhydeddus Heidi Alexander AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, wedi ysgrifennu ataf i nodi ym marn Llywodraeth y DU bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 4, 7, 9, 18, 19, 24, 29-31, 33, 34 a 79.

102. Er fy mod yn cytuno'n fras â rhestr Llywodraeth y DU, mae gwahaniaeth rhwng fy marn i a barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad y Senedd. Yn ogystal â'r cymalau a restrir ym mharagraff 101, credaf fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 3, 11, 12, 15-17, 20, 21, 25, 27, 28, 32, 35-37, 39, 40, 42, 43, 45-48, 51, 52, 59-72, 80, 81, 85-90, 92, Atodlen 2 (Rhan 1) ac Atodlen 3 (paragraffau 4, 5, 8-10, 12-16, 18, 19, 21-23, 25, 26).

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil**

103. **Cymal 4** – mae'r cymal fel y'i drafftiwyd yn cyfyngu'r berthynas i GBR arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond nid galluogi'r gwrthwyneb. Hoffwn archwilio'r posibilrwydd y bydd testun y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau GBR pe bai amgylchiadau yn dangos bod hyn yn fuddiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i wasanaethau trawsffiniol.

104. **Cymalau 18, 19 a 24** - mae'r cymalau hyn (a) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hyrwyddo rheilffyrdd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau gan Weinidogion Cymru wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â rheilffyrdd a gwasanaethau rheilffyrdd, (b) yn gosod dyletswydd diogelwch ar Weinidogion Cymru wrth arfer rheilffyrdd a gwasanaethau rheilffyrdd ac (c) yn cysylltu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â rheilffyrdd a gwasanaethau rheilffyrdd. Ymddengys bod hyn yn ymestyn y tu hwnt i'r swyddogaethau rheoleiddiol a math gwasanaeth rheilffyrdd ac i gydsynio i adeiladu etc rheilffyrdd. I'r graddau hynny, mae'r darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chynllunio, fel y'u cyfyngir gan yr eithriad ym mharagraff 187 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru i'r rhai sy'n dechrau, yn gorffen ac yn aros yng Nghymru. Maent hefyd yn amharu ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru –

(a) mewn perthynas â chydsyniadau ar gyfer rheilffyrdd o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024,
(b) mewn perthynas â chynllunio ar gyfer rheilffyrdd o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, i wneud gorchmynion sy'n ymwneud ag adeiladu neu weithredu rheilffordd sy'n cael effaith yng Nghymru yn unig.

105. **Cymalau 25 a 27** - mae'r rhain yn bwerau rhannol gyfatebol i'r graddau y maent yn ymwneud ag elfennau Cymreig o wasanaethau Cymreig nad ydynt yn wasanaethau i Gymru yn unig. Er eu bod mewn dau gymal ar wahân a ddim ond yn gorgyffwrdd yn rhannol, mae hynny'n eu gwneud yn bwerau cydredol. Er ymddengys bod y cymalau hyn yn dwyn ymlaen pwerau presennol, nad ydym yn y bôn yn ei wrthwynebu, mae rhagor o waith ymgysylltu yn ofynnol i ddeall yr effaith ac ymarferoldeb.

106. **Cymal 31** - fel y'i drafftiwyd, mae cymal 31 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau gwasanaethau i deithwyr a ddynodwyd o dan gymal 25 trwy ddyfarniad uniongyrchol yn unig i GBR neu gwmni GBR (Rheoliad 17 o Reoliadau Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth 2023). Mae'n hepgor llwybr amgen lle gall yr Ysgrifennydd Gwladol sicrhau'r gwasanaethau hynny drwy drefniadau gyda Gweinidogion Cymru. Mae fy swyddogion yn archwilio sut y byddai hyn yn gyson â'r canlynol:

- darpariaeth barhaus Trafnidiaeth Cymru yn Lloegr ar ôl cychwyn y Bil (ni allaf weld sut y gallai barhau);
- llifau ariannu, rheoli prisiau siwrneiau a rhwymedigaethau perfformiad/data [y mae Cytundeb Cymru a'r Gororau rhwng Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn eu hangori ar hyn o bryd;
- y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y mae cymal 24 yn ei gwneud yn ofynnol ei gyhoeddi rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ar sut y bydd swyddogaethau'n cael eu harfer, y Penawdau Telerau (copi yn Nogfen 2) sy'n arwydd o ddarparu cydweithredol yng Nghymru a'r Gororau.

107. **Cymal 63** - Gallai blaenoriaethu ei wasanaethau ei hun gan GBR effeithio ar wasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru o dan gymal 31 o'r Bil mewn ffordd sy'n peryglu gallu ymarferol awdurdodau datganoledig a gweithredwyr cludo llwythi i sicrhau mynediad teg i'r rhwydwaith.

108. **Cymal 72** - gallai gweithredu'r cymal hwn effeithio ar y seilwaith rheilffyrdd y mae Gweinidogion Cymru yn berchen arno neu'r gwasanaethau y mae Gweinidogion Cymru yn eu darparu neu'n sicrhau eu bod yn cael eu rhedeg arno o dan gymal 31. Gallai hyn effeithio'n sylweddol ar weithrediad Llinellau Craidd y Cymoedd.

109. **Cymal 81** - Er ein bod yn fodlon â'r egwyddor o ymgynghori ag awdurdodau maerol ar newidiadau sylweddol, nid ydym yn glir ynghylch sut mae'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn cael ei sbarduno fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd. Mae angen eglurder pellach i ddeall sut mae'r Adran Drafnidiaeth a GBR yn gweld y cymal hwn yn gweithio'n ymarferol.

110. Mae fy swyddogion wedi codi'r pryderon am y cymalau uchod gyda swyddogion yr Adran Drafnidiaeth, sydd wedi cytuno i'w hadolygu. Yn benodol, mae'r Adran Drafnidiaeth eisoes wedi cadarnhau bod cymal 31 yn cynnwys gwall drafftio a fydd yn cael ei ddiwygio.

111. Yn sgil yr uchod, hoffwn drafod y darpariaethau hyn ymhellach â Llywodraeth y DU, cyn rhannu fy asesiad a yw'r darpariaethau hyn yn llesol i Gymru.

**Goblygiadau ariannol**

112. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â Bil Rheilffyrdd Llywodraeth y DU.

**Casgliad**

113. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU gan y bydd yn lleihau cymhlethdod y diwydiant rheilffyrdd ac yn gwella'r gwaith cyffredinol o ddarparu gwasanaethau trên i deithwyr yng Nghymru ac ar draws y DU.

114. Er fy mod yn croesawu cysylltiadau Llywodraeth y DU â ni hyd yma o ran cymhwyso'r darpariaethau yn y Bil hwn, bydd angen rhagor o drafod cyn y gallaf gadarnhau i'r Senedd bod yr holl ddarpariaethau yn addas i Gymru. Byddaf yn parhau i fonitro datblygiadau'r Bil ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel y bo'n briodol. O ystyried amserlen ddisgwyliedig Senedd y DU ar gyfer y Bil mae'n debygol y byddai penderfyniad ar y cynnig deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn - yn seiliedig ar ein dull sefydledig o geisio trefnu dadleuon o'r fath ar ôl y Cyfnod Pwyllgor yn yr Ail Dŷ - yn cael ei gynnal yn Nhymor y Senedd nesaf.

**Ken Skates, AS**



**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**

**21 Ionawr 2026**